Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
Ty Baltig House, Sgwar Mount Stuart,
Bae Caerdydd, CF10 5FH
Lein Gymorth 0800 2888 329 www.wcva.org.uk

Dwy flynedd i hawlio rhyddhad trosiannol Cymorth Rhodd

Mae Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi wedi cadarnhau bod gan elusennau hyd at ddwy flynedd, tan fis Ebrill 2013, i hawlio rhyddhad trosiannol ar roddion Cymorth Rhodd a gafodd eu gwneud cyn 5 Ebrill 2011.

Roedd rhyddhad trosiannol, a gafodd ei gyflwyno yn 2008 i sicrhau nad oedd elusennau'n colli allan pan ddisgynnodd cyfradd sylfaenol treth incwm o 22% i 20%, werth oddeutu £100m y flwyddyn i elusennau, a daeth i ben ar 5 Ebrill. Yn 2013 cyflwynir cynllun rhoddion bach Cymorth Rhodd, a fydd yn galluogi elusennau i hawlio Cymorth Rhodd ar hyd at £5,000 o roddion bach y flwyddyn heb orfod cael datganiadau Cymorth Rhodd. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i elusennau fod wedi bod yn hawlio Cymorth Rhodd am dair blynedd cyn iddynt allu hawlio ar roddion bach.

Er mwyn helpu i dalu am gyflwyno ffeilio Cymorth Rhodd ar-lein erbyn 2013, bydd y Llywodraeth yn diddymu Rhoi Drwy Hunanasesiad ar gyfer ffurflenni treth o fis Ebrill 2012 ymlaen.

Bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi hefyd yn rhoi'r gorau i wneud ad-daliadau Cymorth Rhodd drwy archeb daladwy ac yn lle hynny bydd yn gwneud yr holl daliadau yn electronig drwy ddefnyddio'r system BACS. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau ynghylch y newidiadau hyn neu unrhyw agwedd arall ar roi mewn ffordd treth effeithiol – neu os ydych chi'n gorff ymbarél a hoffech chi drefnu Cymhorthfa Cofrestru Cymorth Rhodd ar gyfer eich mudiadau – cysylltwch ag Eileen Kinsman, Swyddog Cymru'n Rhoi, WCVA, 0800 2888 329 neu e-bostio givingwales@wcva.org.uk.

Ymunwch â'r ddadl yng nghynhadledd WCVA

Mae mudiadau'n awyddus i wella effeithlonrwydd ac arloesedd. Ond dim ond un cam yw ystyried y peth - mae gweithredu'n gam arall. A dyna lle gall Cynhadledd cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus y trydydd sector WCVA helpu.

Dan y teitl *Newid y Drefn,* mae'r gynhadledd, ar ddydd Mawrth 28 Mehefin yn Stadiwm Dinas Caerdydd, yn cynnig cyfle unigryw i'r rhai sy'n mynychu i lunio'r ddadl ar y ffyrdd newydd o ddylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n cynnig arweiniad ymarferol ar gyflenwi gwasanaethau yn amlygu'r arloesedd sy'n digwydd yn y sector ac yn ystyried sut y gall y sector cyhoeddus a'r trydydd sector gydweithio i wella gwasanaethau ar gyfer unigolion a chymunedau yn y modd gorau posibl.

Mae'r siaradwyr yn cynnwys:

- Rob Pickford, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, ar yr her a chyd-destun cyd-gynhyrchu
- Shaun Jamieson, partner yn Hugh James, ar y Mesur Lleoliaeth
- Andrew Goodall, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, ar hyrwyddo 'modelau newydd o gyflenwi gwasanaethau'
- Marcus Longley, Athro Polisi Iechyd Cymhwysol ym Mhrifysgol Morgannwg, ar ddyfodol cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

I archebu lle, ewch i www.wcva.org.uk, cysylltwch â 0800 2888 329 neu eventsadmin@wcva.org.uk. Cefnogir y gynhadledd gan Hugh James.

Gallai diwygiadau i Gymorth Cyfreithiol gael effaith andwyol ar grwpiau cyfiawnder cymdeithasol

Yn gynharach eleni, cyflwynodd WCVA ei ymateb i Gynigion y Weinyddiaeth Cyfiawnder ar gyfer Diwygio Cymorth Cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr.

Roedd yr ymateb yn cefnogi nifer o'r pwyntiau a wnaed yn ymateb Pwyllgor Cymru'r Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol, gan gynnwys y siom gan nad yw'r Papur Gwyrdd yn cynnwys adran benodol ar Gymru. Roedd WCVA yn cefnogi safbwynt y Pwyllgor Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol yn gryf y dylai'r cynnig i symud y Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol tuag at asiantaeth weithredol er mwyn darparu Cymorth Cyfreithiol gynnwys ymrwymiad gan y Weinyddiaeth Cyfiawnder i gynnal trefniant cydweithio gwahanol yng Nghymru.

Roedd WCVA yn anghytuno â thynnu nifer o'r hawliau i Gymorth Cyfreithiol yn ôl, oherwydd bydd hyn yn cael effaith andwyol ar gyfiawnder cymdeithasol i gyfran sylweddol o ddinasyddion Cymru ac, yn benodol, grwpiau sydd eisoes yn agored i niwed. Bydd hefyd yn cael effaith anghymesur ar y gwasanaethau yn y trydydd sector yng Nghymru sy'n hanfodol er mwyn darparu cymorth cyfreithiol i nifer fawr o ddinasyddion a chymunedau difreintiedig neu agored i niwed.

Roedd nifer o'r pryderon yn cynnwys:

Dim yn cynnig gwerth am arian

Byddai'r Papur Gwyrdd arfaethedig yn torri'r cyngor cyfreithiol gwerth gorau am arian, hy, mae cyngor ataliol a chynnar yn cael ei dorri mewn nifer o feysydd.

Bwlch yn y gwasanaethau a gefnogir drwy'r trydydd sector ar hyn o bryd

Ni allai help pro bono lenwi'r blwch sy'n cael ei greu gan doriadau mewn cymorth cyfreithiol. Nid oes modd darparu cyngor annibynnol am ddim heb gost, mae angen cyllid ar hyd yn oed wasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr er mwyn talu am reoli a hyfforddiant ac elfennau sylfaenol megis cyfrifiaduron a lle mewn swyddfa.

Bydd y newidiadau'n cael effaith anghymesur ar y bobl ddifreintiedig ac agored i niwed mewn cymdeithas

Bydd y newidiadau sy'n cael eu cynnig i gymorth cyfreithiol yn cael effaith anghymesur ar y rheini sydd fwyaf agored i niwed.

Bylchau mewn cyngor ledled Cymru

Bydd toriadau mewn cyllidebau yn golygu y bydd yn rhaid i bobl deithio hyd yn oed ymhellach i gael y math iawn o gyngor, a gall hyn olygu bod teithio yn amhosibl i'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

Dyletswyddau Hawliau Dynol a Chydraddoldeb

Ceir pryderon y bydd nifer o'r newidiadau a awgrymir yn torri Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r dyletswyddau cydraddoldeb. Roedd Asesiad yr ymgynghoriad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi dangos yr anfantais gymharol a fyddai'n cael ei chreu gan y darpariaethau arfaethedig. Mae'n dangos yn amlwg, yn y rhan fwyaf o gategorïau o ddarpariaeth cyfraith sifil sy'n bodoli, bod menywod, pobl o leiafrifoedd ethnig a phobl anabl yn cael eu gorgynrychioli o'u cymharu â'r boblogaeth genedlaethol.

Er mwyn darllen ymateb WCVA yn llawn ewch i http://tinyurl.com/3p9tefj.

Mae newidiadau arfaethedig y Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi arwain at bryderon mawr o bob rhan o'r trydydd sector yng Nghymru a Lloegr, gyda nifer o ymgyrchoedd proffil uchel yn erbyn y newidiadau arfaethedig. I gael rhagor o wybodaeth am y rhain a diweddariadau ar y cynnydd, edrychwch ar y Fforwm Cydraddoldeb ac Amrywiaeth http://tinyurl.com/6ar3qmk.

Deddf Cadw Data 1998. Cedwir a phrosesir manylion cysylltu pob un sy'n derbyn yr Atodiad Cenedlaethol gan WCVA ar gyfrifiadur. Defnyddir y wybodaeth gan WCVA i fonitro a hyrwyddo'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Datgelir manylion cysylltu i drydydd parti i fod o gymorth yn y broses hwn.

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prif Swyddfa - Ty Baltig, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FH, elusen gofrestredig rhi 218093, cwmni cyfyngedig drwy warant 425299, wedi ei gofrestru yng Nghymru.

Newyddion a gwybodaeth i Gymru gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru